# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Preswyl Hillsboro**

**Tywyn**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/03/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Preswyl Hillsboro

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Megan Bartlett |
| Lleoedd cofrestredig | 5 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 29/9/2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn hapus ac yn fodlon yn byw yng Nghartref Preswyl Hillsboro. Gwnaethant ddweud wrthym fod y staff gofal yn arbennig, yn gyfeillgar ac yn barod eu cymwynas. Mae'r staff gofal yn brofiadol ac wedi cael yr hyfforddiant priodol. Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod yn heini ac i gadw'n brysur drwy gydol y dydd. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan yn y broses asesu ac adolygu. Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn y cartref.

Mae'r amgylchedd mewn cyflwr da, a chaiff pob maes iechyd a diogelwch ei adolygu'n rheolaidd. Ymdrinnir ag unrhyw faterion cynnal a chadw yn gyflym. Mae'r cartref yn lân ac nid oes unrhyw arogleuon amhleserus yno.

Caiff anghenion iechyd a llesiant y bobl eu diwallu ac mae gweithdrefnau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag y risg y cânt eu cam-drin a'u hesgeuluso.

Mae'r unigolyn cyfrifol, sydd hefyd yn gweithredu fel y rheolwr, yn goruchwylio'r broses o redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd yn dda. Mae angen gwella'r broses recriwtio, y ddarpariaeth staffio a'r trefniadau ar gyfer goruchwylio'r staff gofal.

## Llesiant

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gall y bobl ddewis sut i dreulio eu hamser, ble i dreulio eu hamser a gyda phwy. Mae'r staff gofal yn garedig ac yn amyneddgar gyda'r bobl, a gwelsom sawl enghraifft o ryngweithio gofalgar a llawn hwyl yn ystod yr arolygiad. Gofynnir i'r bobl am eu dewisiadau cyfathrebu, a chlywsom bobl yn sgwrsio yn Gymraeg. Mae papurau newydd Cymraeg ar gael i'r bobl a gallant wylio rhaglenni Cymraeg ar y teledu. Mae'r bobl wedi gwneud ffrindiau yn y cartref ac maent yn treulio amser gyda'i gilydd yn y lolfa gymunedol a'r ardal fwyta neu ym mhreifatrwydd eu hystafelloedd gwely. Caiff y bobl gymorth i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd a'u ffrindiau. Croesewir ymwelwyr i'r cartref ac mae'r bobl hefyd yn defnyddio technoleg i gadw mewn cysylltiad â ffrindiau a theulu, gyda chymorth gan y staff gofal.

Mae'r bobl yn treulio amser yn gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Gwelsom un unigolyn yn gadael y cartref i fynychu dosbarth dydd a dywedodd eraill wrthym eu bod yn aml yn mynd allan gyda'u teulu neu'n mynd am dro neu i gael picnic gyda'r staff gofal. Mae'r bobl yn cadw'n brysur drwy chwarae gemau, darllen llyfrau, trefnu blodau a chymryd rhan mewn gweithgareddau eraill. Gofynnir i'r bobl pa weithgareddau yr hoffent gymryd rhan ynddynt.

Mae’r bobl yn mwynhau'r bwyd a ddarperir yn y cartref. Gall y bobl ddewis bwyta gyda'i gilydd yn yr ystafell fwyta neu yn eu hystafelloedd gwely. Dywedwyd wrthym fod y bwyd yn flasus a gwelsom y bobl yn mwynhau pysgod a sglodion ar ddiwrnod yr arolygiad. Pan ofynnodd pobl am rywbeth gwahanol, ymatebodd y staff i'r cais hwnnw. Gwelsom fod diodydd poeth ac oer, byrbrydau a chacennau ar gael drwy gydol y dydd.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu ac mae polisïau ar waith i roi cymorth pellach iddynt yn hyn o beth. Mae'r cartref yn ddiogel a dim ond unigolion awdurdodedig sy'n gallu cael mynediad iddo; fodd bynnag, gall y bobl adael y cartref pryd bynnag y mynnont, os byddant am wneud hynny.

Mae angen gwneud gwelliannau i'r trefniadau staffio cyffredinol yn y gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio yn cael eu cwblhau'n llawn, bod y staff gofal yn cael sesiynau goruchwylio un i un rheolaidd, a bod trefniadau ar waith i sicrhau lefelau staffio digonol ar gyfer achosion annisgwyl pan fydd aelodau o staff yn absennol neu'n sâl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth sy'n diwallu eu hanghenion unigol a'u dewisiadau personol. Caiff y gofal a'r cymorth eu cynllunio drwy ymgynghori â nhw neu eu cynrychiolydd. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl am hoff bethau a chas bethau'r bobl a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Gwelsom fod asesiadau cyn derbyn yn cael eu cynnal gyda'r bobl cyn iddynt symud i'r cartref. Caiff asesiadau'r darparwr eu diweddaru sy'n dangos bod anghenion gofal yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r cynlluniau personol yn cynnwys gwybodaeth i'r staff gofal am anghenion gofal y bobl, eu canlyniadau personol a'r cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni'r canlyniadau hyn. Rhoddir ystyriaeth i'r risgiau a chaiff unrhyw gamau gweithredu eu cofnodi yn y cynlluniau personol.

Caiff iechyd a llesiant y bobl eu cefnogi. Gwelsom dystiolaeth bod gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol allanol yn cael eu cynnwys a bod canllawiau ar gael ar gyflyrau iechyd penodol. Dywedodd y bobl wrthym, os byddant yn sâl neu os bydd ganddynt bryder, bod y staff gofal yn sicrhau y cânt eu gweld gan weithiwr meddygol proffesiynol cyn gynted â phosibl. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal eu hannibyniaeth a'u symudedd gan fod cyfarpar arbenigol ar gael a bod y staff gofal wedi cael hyfforddiant ar sut i'w ddefnyddio yn ddiogel ac yn briodol.

Caiff meddyginiaethau eu rheoli'n ddiogel yn y gwasanaeth. Gwelsom fod meddyginiaethau yn cael eu storio, eu rhoi a'u cofnodi'n briodol. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar feddyginiaethau ac roeddent yn gallu dweud wrthym am y gweithdrefnau cywir i'w dilyn ar gyfer archebu, derbyn ac archwilio meddyginiaethau yn y cartref. Gwelsom enghreifftiau o adolygiadau o feddyginiaethau yn cael eu cynnal ar gyfer y bobl er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn cael y driniaeth briodol o hyd. Mae'r darparwr yn rhoi cymorth i'r bobl fynychu apwyntiadau os oes angen a gall y bobl gael gwasanaethau fel triniaeth traed yn y cartref.

Mae gweithdrefnau atal a rheoli heintiau effeithiol ar waith yn y cartref. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau ac mae cyfarpar diogelu personol (PPE), a gaiff ei storio'n ddiogel, ar gael iddynt. Mae'r darparwr wedi sicrhau bod canllawiau ychwanegol gan y bwrdd iechyd lleol wedi cael eu rhoi ar waith yn y gwasanaeth.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn cartref diogel, glân a chyfforddus. Gwelsom fod pob rhan o'r cartref wedi cael ei haddurno a'i dodrefnu i safon dda ac mae gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cynnal a chadw ar waith i ailaddurno rhai rhannau o'r cartref. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hoffi eu hystafelloedd gwely sy'n cynnwys cyfleusterau en-suite, a gwelsom eu bod wedi cael eu personoli â lluniau, llenni a deunyddiau ac eitemau personol. Gall y bobl ddewis treulio amser yn eu hystafelloedd lle mae ganddynt deledu a mynediad at y rhyngrwyd neu yn y lolfa gymunedol a'r ardaloedd bwyta. Mae ardal batio ar gael i'r bobl yn yr ystafelloedd gwely ar y llawr gwaelod, a dywedodd y bobl eu bod yn mwynhau treulio amser yn yr ardal honno yn yr haf.

Mae'r darparwr yn rhagweithiol o ran Iechyd a Diogelwch y cartref ac mae'n sicrhau bod y bobl sy'n byw yno a'r staff gofal sy'n gweithio yn y cartref yn ddiogel. Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd o'r amgylchedd yn cael eu cynnal ac yr ymdrinnir ag unrhyw gamau gweithredu a nodir yn gyflym. Caiff diogelwch tân ei reoli'n dda, a chaiff yr holl brofion, ymarferion tân a threfniadau gwasanaethu cyfarpar tân eu cynnal fel y bo angen. Ymdriniwyd â'r camau gweithredu o adroddiad yn dilyn arolygiad tân diweddar yn gyflym, a nododd yr adroddiad fod lefel uchel o ymwybyddiaeth a threfniadau rheoli da yn y cartref mewn perthynas â diogelwch tân.

Gwelsom fod yr holl wiriadau diogelwch rheolaidd ar gyfer diogelwch nwy a diogelwch trydanol yn cael eu cynnal yn ôl yr angen. Lle mae gan y bobl gyfarpar arbenigol fel gwelyau proffilio neu gymhorthion symudedd, caiff y cyfarpar hwnnw ei wasanaethu'n unol â'r gofynion a chaiff unrhyw risgiau perthnasol neu gymorth sydd ei angen i'w ddefnyddio eu cofnodi yn y ffeiliau gofal.

Caiff bwyd ei reoli'n ddiogel yn y cartref. Mae'r staff gofal yn meddu ar y cymwysterau gofynnol ar gyfer rheoli bwyd, a gwelsom fod gwiriadau o dymereddau’r oergell a'r rhewgell yn cael eu cynnal bob dydd. Mae canllawiau'r Asiantaeth Safonau Bwyd ar gael, a chafodd y cartref sgôr hylendid bwyd lefel 5 yn ystod yr arolygiad diogelwch bwyd diweddaraf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Cartref preswyl bach, annibynnol a gaiff ei redeg gan deulu yw Hillsboro. Y darparwr cofrestredig yw'r unigolyn cyfrifol a rheolwr y gwasanaeth hefyd. Mae'r darparwr yn bresennol yn y cartref bob dydd ac yn gweithio ochr yn ochr â'r staff, gan ddarparu gofal a chymorth i'r bobl sy'n byw yno. Mae'r darparwr yn ymrwymedig i ddarparu cartref diogel o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion ac yn bodloni dymuniadau'r bobl. Mae archwiliadau o feysydd fel iechyd a diogelwch a meddyginiaethau, ynghyd â chamau gweithredu yn sgil adborth monitro ansawdd gan yr awdurdod lleol, yn golygu y gall y bobl fod yn dawel eu meddwl bod y gwasanaeth a ddarperir yn cael ei oruchwylio'n effeithiol. Gofynnir barn y bobl sy'n byw yn y cartref drwy sgyrsiau dyddiol a thrwy arolygon adborth ffurfiol. Mae hyn yn sicrhau y caiff lleisiau'r bobl eu clywed ac y caiff eu barn ei ystyried. Mae datganiad o ddiben y gwasanaeth yn sôn am y cartref ac yn rhoi gwybodaeth am sut i wneud cwyn. Mae canllaw i'r gwasanaeth wrthi'n cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliad 19. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan staff gofal sy'n meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i ddarparu gofal a chymorth. Mae'r staff gofal yn meddu ar gymwysterau'r Fframwaith Cymwysterau a Chredydau ac yn cwblhau rhestr gynhwysfawr o hyfforddiant a chânt eu cefnogi ymhellach gan bolisïau a gweithdrefnau. Gwelsom fod gwiriadau gofynnol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael eu cynnal ar gyfer pob aelod o'r staff, ond nid oedd yr holl ddogfennaeth recriwtio ar waith fel sy'n ofynnol o dan Reoliad 35. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd maes i'w wella gan nad oedd y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un ffurfiol, o leiaf bob chwarter fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod un aelod o'r staff wedi cael arfarniad blynyddol o'i waith, ond nid oedd proses ar waith o hyd i sicrhau bod aelodau o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd. Mae hwn yn faes i'w wella o hyd. Dywedodd y darparwr wrthym y byddai'r cynorthwyydd gweinyddol a benodwyd yn ddiweddar yn helpu i gyflawni'r gwelliant hwn.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi gan y rheolwr a'r prif weithiwr gofal. Cawsom wybod mai dyma'r lefel staffio ddiogel ar gyfer y gwasanaeth a gwelsom fod y bobl yn cael gofal a chymorth yn ôl yr angen, heb unrhyw oedi. Gwnaethom drafod y risg pe byddai unrhyw aelod o staff yn absennol neu'n sâl yn ddirybudd â'r darparwr. Mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i'r gwasanaeth sicrhau bod trefniadau ar waith i ymateb i salwch neu absenoldeb staff er mwyn sicrhau bod anghenion gofal a chymorth yn cael eu diwallu a bod unigolion yn cael cymorth i gyflawni eu canlyniadau personol. Nid yw'r trefniadau staffio presennol yn ddigon i sicrhau bod y gofyniad hwn yn cael ei gyflawni. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Rhoddodd y darparwr wybod i ni y bydd yn cymryd camau rhagweithiol i recriwtio staff gofal ychwanegol i'r cartref.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| **Rheoliad** | **Crynodeb** | **Statws** |
| 19 | Nid oes gan y darparwr ganllaw ysgrifenedig cyfredol ar gyfer y gwasanaeth sy'n cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol o dan Reoliad 19. | Newydd |
| 35 | Er bod y staff gofal yn meddu ar y cymwysterau gofynnol i ddarparu gofal a chymorth a bod y gwiriadau gofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith, nid yw'r darparwr wedi sicrhau bod gwybodaeth na dogfennaeth lawn a boddhaol fel sy'n ofynnol fel rhan o'r broses recriwtio ar gael yn y gwasanaeth. | Newydd |
| 34 | Rhaid i'r darparwr sicrhau bod niferoedd digonol o staff gofal yn gweithio yn y gwasanaeth bob amser, gan wneud yn siŵr bod trefniadau priodol ar waith os bydd aelodau o staff yn absennol neu'n sâl. | Newydd |
| 36 | Nid yw'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un bob chwarter. | Heb Gyflawni |
| 60 | Nid yw'r darparwr wedi cyflwyno hysbysiadau i'r rheoleiddiwr (AGC) yn dilyn marwolaeth pobl yn y gwasanaeth. | Cyflawnwyd |
| 15 | Nid yw'r cynlluniau personol yn cynnwys y camau gweithredu manwl sydd eu hangen i ddiwallu anghenion llesiant, gofal a chymorth unigolion o ddydd i ddydd. | Cyflawnwyd |
| 58 | Nid oes systemau ar waith i sicrhau bod y bobl sy'n rhoi meddyginiaeth iddyn nhw eu hunain yn cael eu goruchwylio a'u harchwilio. | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 10/05/2024